**Agenda Hawdd Ei Ddeall**

# Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu




**Cyfarfod dydd Mawrth 19 Mawrth 2024**





Amser: 12.15pm tan 1.15pm



Ble: Ar-lein ar Zoom.

Gallwch archebu i ymuno â'r cyfarfod yma: https://us02web.zoom.us/meeting/register/tZUkd-CqrzwsH9Dma_xBsmcNY0Wr93iYtF0C#/registration



# Agenda

Beth y byddwn ni'n siarad amdano yn ein cyfarfod

| Amser | Beth a phwy |
|---|---|




**1. Croeso a chyflwyniadau**

Mae Sioned Williams yn Aelod o'r Senedd ac yn Gadeirydd y grŵp.

Mae Sara Pickard yn gweithio i Mencap Cymru ac yn gyd-Ysgrifennydd y grŵp.

Bydd Sioned a Sara yn croesawu pawb i'r cyfarfod.




**2. Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol**

Sara Pickard yw cyd-Ysgrifennydd y Grŵp.

Bydd Sara yn egluro beth fydd yn digwydd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol neu AGM.

**3. Pleidleisio dros y cyd-Ysgrifenyddion newydd**

Bydd y Cadeirydd newydd yn gofyn a fyddai unrhyw un yn hoffi bod yn gyd-Ysgrifenyddion y grŵp am y 12 mis nesaf.

Yna bydd aelodau'r grŵp yn pleidleisio dros y cyd-ysgrifenyddion newydd.




**4. Pleidleisio dros y Cadeirydd newydd**

Bydd y cyd-ysgrifenyddion newydd yn gofyn a fyddai unrhyw Aelodau o'r Senedd yn hoffi bod yn Gadeirydd y grŵp am y 12 mis nesaf.

Yna bydd aelodau'r grŵp yn pleidleisio dros y Cadeirydd newydd.

**5. Yr adroddiad blynyddol**

Bydd Sam Williams yn egluro'r hyn y bydd hi’n ei roi yn yr adroddiad blynyddol i'r Senedd am waith y grŵp dros y 12 mis diwethaf.

**6. Cyflwyniad am y rheolau newydd ar gardiau adnabod pleidleiswyr**




Bydd James Dash, Courtey Poupard a Lucy Hinksman o **Pobl yn Gyntaf Sir Benfro** yn siarad am y rheolau newydd ar ddangos cerdyn adnabod pan fyddwch chi’n pleidleisio mewn rhai etholiadau.

Byddant yn siarad am y rhesymau pam eu bod nhw’n poeni y gallai hyn ei gwneud hi'n anoddach i bobl ag anabledd dysgu bleidleisio.




**7. Cyflwyniad am Fy Mhleidlais, Fy Llais**

Bydd Ismail Kaji a Gaibhin McGranaghan o'r prosiect **Fy Mhleidlais, Fy Llais** yn siarad am wneud pleidleisio'n fwy hygyrch i bobl ag anabledd dysgu.




**8. Cwestiynau**

Bydd amser i bobl ofyn cwestiynau am y cyflwyniadau.

**9. Unrhyw fusnes a syniadau eraill ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol**




Bydd y Cadeirydd yn siarad am unrhyw beth arall sy'n bwysig.

Byddant hefyd yn gofyn am syniadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.




**10. Cau**

Bydd y Cadeirydd yn cau'r cyfarfod.

Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 1.15pm.